# Cofnodion Cyfarfod CCG Medi 30.9.21

## Am 7.30yh Ar-lein

**19:245: Presennol:** Gareth Jones, (Cadeirydd), Bedwyr Fychan, Rhodri Wigley, Elwyn Vaughan, Gwenfair Davies, Gareth Owen, Aeron Pughe, Aled Griffiths, Paul Hughes, Deryck Lewis, William Owen, Sandra Evans (Clerc)

**19:246: Ymddiheuriadau:** Huw Williams, Iwan Jones, Dafydd Evans

**19:247: Datganiadau o ddiddordeb:** Dim

**19:248: Cyflwyno a derbyn Cofnodion Gorffennaf**. Cynigiwyd fod y cofnodion yn gywir gan Gareth Owen. Fe'i heiliwyd gan William Owen.

**19:249: Materion yn codi o'r Cofnodion** – Nodwyd bod yr holl bwyntiau gweithredu /hadrodd wedi cael eu cyflawni heblaw am 19:244:6: sef anfon llythyr i ddiolch i Alun Jehu, Penybanc am ei gymwynasgarwch yn tocio'r sietyn. Bydd hyn yn cael ei wneud yn syth.

**19:250: Pennu/cadarnhau Is-gadeirydd** Mae trafodaethau ar waith

**19:251:** Croesawyd Bedwyr Fychan a Rhodri Wigley i blith y Cynghorwyr a diolchwyd iddynt am ymgymryd â'r rôl gan y Cadeirydd. Nodwyd bod y gwaith papur priodol wedi cael ei gyflwyno.

**19:252: Cyfrifon Ddiwedd y Flwyddyn/ Archwiliad 2020-2021**

Nodwyd bod Whittingham Riddell wedi diweddaru ac arwyddo'r archwiliad mewnol am yr ail dro gan fod y Cyngor wedi adrodd camgymeriadau o'u rhan hwythau. Roedd y rhain yn cynnwys nifer o bwyntiau e.e. argaeledd dogfennau, cysoni ariannol gydol y flwyddyn, cyfeirio at gysoni ariannol yn y cofnodion, siec ar goll.

Mae cyfrifon 2020-2021 wedi cael eu hanfon i'r Swyddfa Archwilio ar gyfer yr archwiliad allanol. Bydd y dogfennau priodol yn cael eu harddangos yn unol â gofynion y Swyddfa Archwilio i nodi bod archwiliadau'r Swyddfa Archwilio wedi cael eu rhwystro gan amgylchiadau eleni.

**19:253: Cynllunio**

**19:253:1: Maes carafanau Bryn Uchel Isaf, Cwmlline, Machynlleth, Powys SY20 9PE** 21/1515/REM: Cais dan Adran 73 cais mewn perthynas ag amrywiad o ran amod 2 cais P/2012/0616 (newid cynllun y safle) Cynigiwyd y dylid cymeradwyo'r cais gan Gareth Owen ac fe'i heiliwyd gan Gwenfair Davies ar yr amod ei fod yn cydymffurfio â chanllawiau cynllunio ac o fewn ffiniau tir yr ymgeisydd.

**19:253:2: Cwm Bychan Bach, Comins Coch, Machynlleth, Powys SY20 8LL**
21/1488/HH estyniad i'r tŷ
Cynigiwyd y dylid cymeradwyo'r cais gan Aeron Pughe ac fe'i heiliwyd gan Aled Griffiths

**19:254: Materion ariannol ac eitemau i'w talu**

**19:254:1:** Derbyniwyd y diweddariad ariannol a chysoni cyfrifon isod gan y Cyngor

| **Cyfrif** | **Rhif y cyfrif** | **Dyddiad** | **Balans - datganiad** | **Sieciau heb eu cyflwyno** | **Arian a dderbyniwyd** | **Balans gwirioneddol** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ***CCG* current** | **80405019** | **10.9.21** | **22,197.31** | 101295 SARPA **10.00** ------------- 101297 Capel Same **250.00** ---------------- 101301 Cyflogres WR **114.00** --------- 101306,Clerc 1003.20 -------------- 101304 Blewyn Glas **10.00** **Cyfanswm 1,387.20** | **Precept 3,833.00 (31.8.21)** | **20,810.11** |
| ***CCG* savings** | **80405035** | | **15,103.75** | | **0.38 (Budd)** | |
| **Gwynt current** | **40052604** | | **1,795.01** | | | |
| **Gwynt savings** | **60849707** | | **6,091.28** | | **0.15 (Budd)** | |
| **Mynwentydd** | **40500941** | | **1,795.76** | | **0.04 (Budd)** | |

**19:254:2:** Nodwyd y newidiadau canlynol yn dilyn gwybodaeth bellach gan Whittingham Riddell, a gofnodwyd gynt yng nghofnodion Gorffennaf 2021 sef -*HMRC £228.03. >250.70. Cyflog y Clerc 1015.20 >1003.20*

**19:254:3:** Gloversure anfoneb-19973 £5.70 –ar gyfer gosod pennawd newydd ar y wefan ar gyfer Polisïau a Dogfennau

**19:254:4:** Cyflog y Clerc £264.00 (Gorffennaf) £105.60 (Awst)=£369.60 Cymeradwywyd yr holl daliadau gan y Cyngor.

**19:255: Derbyniwyd y dogfennau canlynol gan y Cyngor.** Model Reoliadau Ariannol 2019 i Gymru, Model Rheolau Statudol (Cymru) 2018 a Chofrestr Buddiannau Cynghorwyr. Nodwyd gyda diolch bod manylion rhai o'r Cynghorwyr wedi cyrraedd y clerc yn barod.

**19:256: Adroddiadau'r Cynghorwyr**

**19:256:1: Adroddiad Llywodraethwyr Ysgol Glantwymyn – Aled Griffiths**

- Croesawyd athrawes newydd sef Miss Anwen Jervis i'r ysgol. Nodwyd bod nifer o blant ac athrawon wedi gorfod aros adre o ganlyniad i Covid.
- Mae Bedwyr Fychan ar Bwyllgor a fydd yn trefnu dathliadau ar gyfer hanner canmlwyddiant yr ysgol. Nodwyd bod nifer o ddigwyddiadau ar y gweill i dynnu pobl at ei gilydd yn 2022. Mae'r pwyllgor hefyd yn hel erthyglau gan benaethiaid a fu.
- Wedi mynychu cyfarfod gydag Adran Ariannol Addysg y Sir i drafod cyllideb y tair blynedd nesaf. Nodwyd bod fformiwla'r Awdurdod lleol i ariannu ysgolion wedi newid er budd Ysgol Glantwymyn ar hyn o bryd. Mae pedwar dosbarth erbyn hyn yn yr ysgol.

**19:256:2: Fforwm y Cleifion, Gwenfair Davies**

Bwriad y Fforwm yw cynnal cyfarfod cyn gynted ag y bydd Bwrdd Iechyd Addysgol Powys yn gweld eu ffordd yn glir i wneud hynny. Byddai medru cwrdd yn rhithiol yn gam i'w groesawu. Ystyrir bod hyn yn arbennig o bwysig yn sgil datblygiadau'r adeilad newydd ar safle'r ysbyty gan ei fod yn llwyfan i rannu gwybodaeth gydag Ysbyty Bronglais a chyrff eraill a fydd yn defnyddio'r adeilad, a hefyd y cyhoedd. O ran y gwasanaeth ym Meddygfa Iechyd Bro Ddyfi, nodwyd bod modd cael ateb i alwadau ffôn gan gleifion yn fwy hwylus ar adegau penodol o'r dydd na'i gilydd ond adroddwyd bod rhai yn gorfod aros am hyd at awr o hyd am atebiad.

Nodwyd y bydd y feddygfa ar gau ar gyfer hyfforddiant system ffôn newydd am y cyfnodau isod:

Dydd Mercher 13.20.21 am 3.45-4.45

Dydd Iau 14:20:21: am awr yn y prynhawn

Dydd Mawrth 19.10.21: am awr

Dydd Mercher 20:10:21: am awr

1:

**19:257: Ffens eglwys Darowen a wal eglwys Llanwrin**

**19:257:1:** Mae Huw Pughe wedi cytuno i drwsio'r ffens dros dro. Cysylltir â'r Barchedig Miriam Beecroft i ofyn am ffens barhaol.

**19:257:2:** Mae Rhodri Wigley wedi cynnig mynd â gwirfoddolwyr i gynnal gwaith cadwriaethol a chlirio mieri a thyfiant arall yn y fynwent. Cysylltir â'r eglwys i drefnu.

**19:257:3:** Nodwyd nad yw wal eglwys Llanwrin wedi cael ei thrwsio er iddi gael ei hadrodd ers bron i 18 mis yn ôl. Mae'r arch garreg hefyd yn beryg. Cysylltir eto â'r Barchedig Mirian Beecroft i adrodd y rhain.

**19:258: Gohebiaeth:**

- Copi o lythyr apêl i Bowys Cyfeirnod: APP/T6850/A/21/3278094 26.8.21 am godi sied amaethyddol Mathafarn , Llanwrin, Machynlleth, SY20 8Q a llythyr yn apelio yn erbyn gwrthwynebiad y Cyngor i sefydlu - Cytiau Bugail Comins. Ni weithredwyd ymhellach gan fod y Cyngor eisoes wedi mynegi ei farn.
- Holiadur Mynyddoedd Cambria - Mynediad a Hamdden 2021. Mae hwn eisoes wedi cael ei anfon at y Cynghorwyr.
- Llythyr gan Gymdeithas yr iaith yn gofyn am gynnwys enw'r Cyngor yn yr ymgyrch codi ymwybyddiaeth o'r sefyllfa tai yng Nghymru. Cytunwyd y dylid gwneud. Mae hwn hefyd wedi cael ei anfon at y Cynghorwyr yn unigol.
- Hysbysiad am ymgynghoriad ar Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) Powys. Anfonwyd hwn at y Cynghorwyr eisoes. Cynigiwyd y dylid trafod y mater fel Cyngor yn y cyfarfod nesaf gan Gwenfair Davies. Fe'i heiliwyd gan Bedwyr Fychan.
- Ymholiad am Giosg Tal-y-wern gan Sior Coleman. Nodwyd nad yw'r Cyngor wedi cael unrhyw wybodaeth newydd.
- Gohebiaeth 'Glantwymyn Neighbour' gan nifer o breswylwyr lleol. Bydd y Clerc yn ei hadrodd i'r safonau masnach rhag ofn mai twyll yw.

**19:259: Unrhyw Fater Arall**

**19:259:1: Baw cŵn Cemaes.** Mae hwn dal yn broblem ddifrifol. Adroddir y mater eto. Nodwyd bod problem hefyd yng Nglantwymyn ac yng Nghwmlline, er bod bins baw cŵn yng Nghwmlline.

**19:259:2: Bins Cwmffrydlan.** Mae'r rhain yn dal yn broblem. Adroddir y broblem hon eto.

**19:259:3: Ciosg Cemaes** – Cadarnhawyd mai Deryck Lewis a bennwyd i wneud y gwaith hwn (Cofnodion CCG Gorffennaf 19:235:1:) ar ôl iddo gynnig yn garedig i'w wneud gan nad oedd neb arall ar gael er holi helaeth. Bydd e'n mynd eto i gael golwg manwl. Cynigiwyd hyn gan Gareth Owen ac fe'i heiliwyd gan Aeron Pughe.

**19:259:4: Coed yn tyfu ar draws y llwybr ac yn gyferbyn â'r llwybr ym mhen uchaf maes parcio Ysgol Glantwymyn.** Cysylltir â Mrs. Bethan Jones a Chyngor Sir Powys.
**19:259:5: Coed yn tyfu rhwng y garej ac ochr y rheilffordd yng Nglantwymyn.** Cysylltir â Rhwydwaith Cymru a Chyngor Sir Powys.
**19:259:6: Ciosg Darowen** Mae dal angen trwsio'r ciosg. Bydd y ciosg yn cael ei adrodd eto i BT.
**19:259:7: Sul y Cofio** Bydd y Cadeirydd yn gosod torch ar ran y Cyngor. Diolchwyd i Heather Jones am archebu'r torch.
**Daeth y cyfarfod i ben am 21.43**
**Cynhelir y cyfarfod nesaf 28.10.21 am 7.30**

---